Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Jenny Williams
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Swyddfeydd Dinesig
Abergele Road
Bae Colwyn
LL29 8AR

Dyddiad: 03 Awst 2020

Annwyl Jenny Williams

**Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020**

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- amlinellu ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19. Fodd bynnag, credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw’r awdurdod lleol a’i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy’n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo’r awdurdod lleol a’i bartneriaid i wella’n barhaol.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

0300 790 0126
0872 437 7303
CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Government Buildings
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'n dull cynyddol gydweithredol o hybu gwelliant sy'n seiliedig ar gryfderau.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Roedd y gweithgarwch hwn yn cynnwys:

- arolygu gwasanaethau plant anabl ym mis Tachwedd 2019
- gweithgarwch â phwyslais penodol o ran gwasanaethau oedolion ym mis Mawrth 2019 (1 diwrnod yn unig oherwydd COVID-19)
- gwaith ymgysylltu o ran gwasanaethau oedolion hŷn
- cyfarfodydd â phenaethiaid gwasanaethau ym mis Gorffennaf 2019 a mis Ionawr 2020
- cyfarfod adolygu – gwaith atal a hybu annibyniaeth i oedolion hŷn – mis Hydref 2019
- adolygu gwaith sicrwydd ac asesiadau risg – mis Chwefror 2020
- gwybodaeth a gafwyd
- gwybodaeth am berfformiad

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â'r awdurdod lleol wrth i'r holl weithgarwch a restrir uchod fynd rhagddo, ac felly mae cynnwys ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchiad cywir o'n canfyddiadau parhaus, a rennir â'r awdurdod lleol yn gyson.

<u>Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014</u>

**Llesiant**

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy dîm uwch-reolwyr sefydledig sy'n hyderus wrth ddatblygu ystod o brosiectau newydd a defnyddio arian grant i greu modelau gofal a chymorth newydd i wella canlyniadau i bobl.

Mae lefel dda o gymorth gwleidyddol ar gyfer cyfarwyddyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod. Mae trefniant rheoli perfformiad ac adrodd, sy'n cynnwys cyfleoedd i herio, yn sicrhau bod aelodau etholedig yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Mae uwch-reolwyr yn parhau i roi gwybod i aelodau am gynnydd yn y galw am wasanaethau, y cymhlethdod, yr effaith ar gyllidebau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth.

Mae'n gadarnhaol nodi bod her darparu a chomisiynu gofal cartref i oedolion yn parhau i gael ei rheoli'n dda gan yr awdurdod lleol. Caiff pobl eu hail-alluogi a chânt becynnau gofal yn amserol. Mae hyn yn cefnogi eu llesiant ac yn hybu cam adfer pobl yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty.

Ar adeg yr arolygiad o wasanaethau plant anabl, roedd y siomedig nad oedd yr awdurdod lleol wedi newid ei holl dempledi cofnodi i adlewyrchu ac atgyfnerthu egwyddorion Deddf 2014. Yn sgil hynny, nid oedd y sgwrs am 'yr hyn sy'n bwysig' na llais y plentyn bob amser yn amlwg mewn asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth, ac roedd hefyd angen gwneud gwelliannau o ran cofnodi cryfderau a chanlyniadau personol. Roedd yn gadarnhaol nodi bod hyfforddiant wedi cael ei drefnu i ymgorffori ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

ymhellach. Cydnabyddir bod sicrhau bod templedi cofnodi a fformatau adrodd yn adlewyrchu gofyniad Deddf 2014 yn flaenoriaeth gan uwch-reolwyr, ac yn ystod 2020 bydd yr awdurdod lleol yn newid i System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Bydd hyn yn helpu'r awdurdod lleol i sicrhau bod y wybodaeth sy'n ofynnol yn cael ei chofnodi'n gyson.

**Pobl**

Disgrifiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel awdurdod lleol dwyieithog. Yn ystod yr arolygiad o wasanaethau plant anabl, dywedwyd wrthym fod pobl yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith ac roedd rheolwyr yn y tîm gwasanaethau plant anabl yn hyderus bod nifer digonol o ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg er mwyn rhoi'r Cynnig Rhagweithiol ar waith.

Roedd rhieni plant anabl yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch y cymorth roeddent yn ei gael, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r berthynas a oedd yn cael ei meithrin â gweithwyr cymdeithasol unigol. Siaradodd unigolyn a oedd yn cael cymorth gan y tîm Oedolion Agored i Niwed am y ffordd yr oedd ymarferwyr yn gwrando arni ac yn canolbwyntio ar yr hyn a oedd yn bwysig iddi. Siaradodd ymarferwyr a rheolwyr asiantaethau partner yn gadarnhaol am ddyfalbarhad y tîm a'r ffocws parhaus am feithrin cydberthnasau ac ymddiriedaeth ag unigolion sy'n agored i niwed.

Dywedodd staff wrthym yn gyson eu bod yn mwynhau gweithio i'r awdurdod lleol ac yn gwerthfawrogi'r diwylliant cefnogol.

Mae mwy o bobl yn rheoli eu gofal eu hunain drwy gael taliadau uniongyrchol. Er bod pobl yn cael mwy o ddewis a rheolaeth, gwelsom fod y buddiannau yn cael eu lliniaru ar adegau o ganlyniad i'r anawsterau y mae pobl yn eu hwynebu wrth geisio recriwtio a chadw cynorthwywyr personol. Bydd yr awdurdod lleol yn awyddus i fonitro'r ffordd mae hyn yn effeithio ar blant, oedolion a gofalwyr.

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd wedi nodi nad yw’r awdurdod lleol, yn yr un modd a llawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

**Atal**

Mae'r uwch-reolwyr yn gwybod bod cael gwasanaethau ymyrraeth gynnar yn allweddol er mwyn lliniaru'r angen am wasanaethau statudol. Maent yn canolbwyntio ar ddatblygu a hyrwyddo cryfderau a gwydnwch pobl yn unol ag egwyddorion Deddf 2014.

Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n galed i ad-drefnu ac ailgynllunio ei wasanaeth, ac mae wedi canolbwyntio ei waith ymyrryd yn gynnar ac atal ar ddatblygu pum canolfan i deuluoedd yn y gymuned. Yr uchelgais yw i bobl gael mynediad agored i wasanaethau cyffredinol mewn cymunedau lleol.

Caiff plant anabl eu cefnogi a'u hannog i ddysgu a datblygu er mwyn cyflawni eu potensial llawn a chymryd rhan mewn cymdeithas. Mae technoleg gynorthwyol yn cael ei defnyddio'n effeithiol er mwyn helpu i hybu annibyniaeth o'r fath a chefnogi teuluoedd.

Gwnaethom nodi bod dull gweithredu amlasiantaeth cryf ar waith i gefnogi'r rhai sydd wedi gadael gofal a phobl ifanc sy'n ddigartref. Arweiniodd cydberthnasau adeiladol gyda'r adran tai a'r trydydd sector at ddarpariaeth dda o lety a chymorth i bobl sy'n agored i niwed.

Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i gefnogi gofalwyr ac mae'n ymwybodol o'r angen i allu dangos effaith ei waith. Mae angen sicrhau ymarfer cyson wrth gynnig a chynnal asesiadau a chanolbwyntio ar sicrhau na chaiff cyfleoedd i gefnogi gofalwyr eu colli na'u hoedi.

Yn ystod 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r adroddiad ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi cael profiad o ofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amlder adolygiadau diwedd lleoliad. Ni chawsom ymateb ffurfiol gan yr awdurdod lleol ac felly gofynnwn eto i chi roi gwybod i ni a chadarnhau sicrwydd o'ch ymarfer mewn adolygiadau o'r fath. Er enghraifft, a gynhelir cyfarfodydd tarfu neu gyfarfodydd am leoliadau yn chwalu, a sut y caiff yr hyn a ddysgir o adolygiadau / cyfarfodydd o'r fath eu cynnwys mewn ymarfer.

**Partneriaethau**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth ar lefel leol a rhanbarthol, gydag uwch-reolwyr yn cymryd rôl flaenllaw mewn rhai o weithgorau â blaenoriaeth y rhanbarth. Mae hefyd parodrwydd i gyfrannu at yr agenda genedlaethol fel y gwelwyd yn ddiweddar pan gytunodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant i gadeirio gweithgor cenedlaethol.

Yn ystod ein gweithgarwch â phwyslais penodol o ran gwasanaethau oedolion, siaradodd rheolwyr asiantaethau partner yn gadarnhaol am waith tîm Oedolion Agored i Niwed Conwy. Soniodd pob un am y ‘Panel Achosion Cymhleth’ fel trefniant sy'n galluogi asiantaethau amlddisgyblaethol i ddod ynghyd er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion ac yn rheoli risgiau pobl â'r anghenion mwyaf cymhleth yng Nghonwy.

Mae'r awdurdod lleol yn gweithio tuag at dreialu hwb diogelu amlasiantaethol. Rhagwelir y bydd yr hwb yn rhoi ymateb cyflymach i bryderon o ran diogelu drwy gael gwared ar unrhyw oedi o rai o'r llwybrau diogelu presennol.

Yn ystod yr arolygiad o wasanaethau plant anabl, gwelsom fod trefniadau comisiynu'r awdurdod lleol yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhai gwasanaethau o ansawdd da er mwyn diwallu anghenion plant anabl a'u teuluoedd. Fodd bynnag, mae digonolrwydd adnoddau yn parhau i fod yn her, a gwelsom oedi wrth ddarparu cymorth. Nododd rhai rhieni plant ag anghenion cymhleth fod diffyg darpariaeth. Mae angen i'r awdurdod lleol barhau i weithio gyda'r bwrdd iechyd lleol i ddatblygu dull comisiynu ar y cyd i blant ag anghenion cymhleth.

**Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021**

Roedd ein rhaglen arolygu thematig a gynlluniwyd ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn. Ar gyfer yr arolygiad thematig presennol o wasanaethau plant, mae'r ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgarwch sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd y byddwn yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ar ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau pobl hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymdrech wirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â'r cyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc.
Archwilio Cymru
AGIC
Estyn